# GWEITHDREFN ADDASRWYDD I YMARFER

# CYNNWYS


Cyflwyniad .... 3

Ymddygiad Disgwyliedig .... 4

Rhoi Gwybod am Bryderon .... 5

Atal Astudiaethau ar Unwaith .... 5

Ymchwiliad .... 6

Ystyried y Pryder: Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer yr Ysgol .... 8

Y Weithdrefn a ddilynir yn ystod y Pwyllgor Ysgol a Phrifysgol: .... 9

Y Pwyllgor Prifysgol .... 10

Penderfyniadau'r Pwyllgor Prifysgol .... 11

Monitro Penderfyniadau Pwyllgorau .... 12

Gwneud Cais am Adolygiad .... 12

## 1. Cyflwyniad

1.1. Mae’r weithdrefn hon yn gymwys i raglenni sy’n arwain at gymhwyster proffesiynol sy’n caniatáu cofrestru â chorff proffesiynol, statudol a rheoleiddio fel y Cyngor Meddygol Cyffredinol, y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal, neu’r Cyngor Fferyllol Cyffredinol.

1.2. Os ydych wedi’ch cofrestru fel rhan o raglen sy’n arwain at gymhwyster neu gofrestriad proffesiynol, mae gofyniad ar y Brifysgol i sicrhau eich bod yn addas i ymarfer yn ystod eich astudiaethau ac ar ôl dyfarnu’r radd. Mae’r gofyniad hwn yn rhan o’r broses dderbyn ac mae’n gyfrifoldeb parhaus drwy gydol eich rhaglen, gan gynnwys pan fyddwch ar leoliad. Fel rhan o dderbyn cynnig i ymuno â rhaglen rydych yn cytuno i ymddwyn yn unol â gofynion y Brifysgol a’r corff proffesiynol, statudol a rheoleiddio perthnasol.

1.3. Mae Pennaeth eich Ysgol yn gyfrifol am eich hysbysu am ofynion addasrwydd i ymarfer eich rhaglen ac am ymchwilio i bryderon a chymryd camau priodol fel y nodir yn y weithdrefn hon.

1.4. Rydych chi’n gyfrifol am dynnu sylw’r Ysgol at unrhyw amgylchiadau a all effeithio’n andwyol ar eich addasrwydd i astudio. Gall y rhain fod yn broblemau iechyd, cysylltiad â’r heddlu sy’n deillio o’ch ymddygiad neu ymddygiad honedig, ymchwiliad gan gorff statudol arall neu faterion eraill fel uniondeb neu dorri safonau corff proffesiynol. Gall y Pennaeth Ysgol, mewn ymgynghoriad â Phennaeth y Gofrestrfa, benderfynu y dylai’r materion gael eu hystyried o dan bolisi arall yn ogystal â neu’n hytrach nag Addasrwydd i Ymarfer, er enghraifft, y Gweithdrefnau Ymddygiad Myfyrwyr neu Uniondeb Academaidd.

1.5. Os byddwch yn mynegi pryder amdanoch eich hun neu os oes adroddiad yn eich cylch o ganlyniad i fater a all effeithio ar eich addasrwydd i ymarfer, byddwch yn cael eich trin yn deg a thryloyw o dan y weithdrefn hon. Gwneir unrhyw benderfyniad ar ôl pwyso a mesur y tebygolrwydd gan ystyried yr holl wybodaeth berthnasol sydd ar gael i’r sawl sy’n gwneud y penderfyniad. Bydd staff y Brifysgol a fydd yn ymchwilio ac yn prosesu pryderon o dan y weithdrefn hon wedi cael eu hyfforddi ar gyfer eu rôl.

1.6. Os canfyddir risg i’ch diogelwch chi neu eraill, gan gynnwys cleifion, gallwch gael eich atal o’r lleoliad a/neu astudiaethau academaidd nes bydd yr ymchwiliad wedi’i gwblhau a bod penderfyniad wedi’i wneud. Mae’r weithdrefn hon yn disgrifio’r broses ar gyfer atal.

1.7. Gall y Brifysgol ddewis aros i ymchwilio i fater os ydych yn destun ymchwiliad gan yr heddlu neu sefydliad arall, nes bydd canlyniad yr ymchwiliad hwnnw wedi’i gyhoeddi. Bydd pob achos yn cael ei ystyried ar sail y ffeithiau a’r risgiau i gleifion, cydweithwyr, neu staff neu aelodau eraill o’r Brifysgol sy’n hysbys ar yr adeg pan fydd y pryderon yn cael eu codi.

1.8. Ni fydd y Brifysgol yn datgelu’r wybodaeth sy’n ymwneud â’r gwrandawiad addasrwydd i ymarfer i gorff proffesiynol, statudol neu reoleiddio nes bydd yr

achos wedi'i gwblhau, oni bai bod canllawiau'r corff yn datgan i'r gwrthwyneb, neu os oes gofyniad cyfreithiol i ddatgelu.

## 2. Ymddygiad Disgwyliedig

2.1. Disgwylir y bydd pob myfyriwr ar raglen sy'n arwain at gymhwyster neu gofrestriad proffesiynol yn ymddwyn ag uniondeb, gonestrwydd, gan ddangos parch at eraill, ac mewn modd sy'n cydymffurfio â'r cod safonau proffesiynol perthnasol.

2.2. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o honiadau a all arwain at ymchwiliad i addasrwydd i ymarfer:

- Methiant i gyrraedd disgwyliadau Gweithdrefn Ymddygiad Myfyrwyr y Brifysgol neu gorff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddio sy'n cynnwys:
    - Camddefnyddio alcohol neu gyffuriau;
    - Tramgwydd troseddol, gan gynnwys unrhyw rybuddiad neu gerydd neu ymchwiliad sy'n parhau gan yr heddlu neu gorff statudol perthnasol;
    - Methiant i hysbysu'r Brifysgol o dramgwydd troseddol, cerydd neu ymchwiliad gan yr heddlu neu gorff proffesiynol neu statudol perthnasol;
    - Unrhyw achos o gam-drin corfforol, geiriol, hiliol neu rywiol, gwahaniaethu, aflonyddu neu fwlio yn erbyn unrhyw fyfyriwr arall, aelod o'r cyhoedd, neu aelod o gymuned y Brifysgol;
    - Ffugio dogfennau neu wybodaeth glinigol, neu wybodaeth bersonol neu academaidd;
    - Cyhoeddi gwybodaeth, sylwadau neu ddelweddau amhriodol, gan gynnwys ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol;
- Ymddygiad amhroffesiynol mynych sydd heb gael sylw gan y myfyriwr yn unol â chanlyniad unrhyw gamau anffurfiol a gymerwyd;
- Cyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol sy'n achos pryder o ran addasrwydd i ymarfer, er enghraifft lle bu methiant i ddilyn cyngor meddygol neu wasanaeth cymorth, gan gynnwys lle mae addasiadau rhesymol wedi'u gwneud;
- Torri cyfrinachedd;
- Mynd yn groes i'r ymddygiad disgwyliedig a bennwyd gan y corff proffesiynol perthnasol;
- Unrhyw amgylchiadau eraill a all effeithio ar addasrwydd i ymarfer.

## 3. Rhoi Gwybod am Bryderon

3.1. Bydd disgwyl i chi roi gwybod am unrhyw fater y gellid barnu sy'n bryder addasrwydd i ymarfer, naill ai amdanoch eich hun neu fyfyriwr arall, i Bennaeth yr Ysgol. Dylech gyflwyno unrhyw ddogfennaeth neu dystiolaeth berthnasol i Bennaeth yr Ysgol ar adeg gwneud yr honiad.

3.2. Bydd Pennaeth yr Ysgol yn cael ei gynghori gan y Pennaeth Achosion Myfyrwyr ac yn penderfynu a ddylid agor ymchwiliad neu beidio cymryd camau pellach.

3.3. Ni fydd y Brifysgol yn cymryd camau oni bai bod yr achwynydd wedi gwneud ei hun yn hysbys i Bennaeth yr Ysgol neu'r Cofrestrydd Academaidd. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y gweithredir ar bryderon di-enw, a bod hynny'n gysylltiedig â mater difrifol lle mae tystiolaeth gadarnhaol annibynnol ar gael.

3.4. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu os ydych yn poeni am fynegi pryder, gallwch siarad yn anffurfiol â'ch tiwtor personol i drafod y broses a'r cymorth sydd ar gael.

3.5. Gallwch siarad â staff tîm Cynghori Myfyrwyr Undeb y Myfyrwyr neu gynrychiolydd corff proffesiynol/undeb i gael cyngor annibynnol am eich pryder a gweithdrefnau'r Brifysgol.

## 4. Atal Astudiaethau ar Unwaith

4.1 Mae gan y Brifysgol ddyletswydd gofal i fyfyrwyr, staff a'r gymuned ehangach gan gynnwys cleifion, cleientiaid a'r cyhoedd. Mewn achosion difrifol lle mae risg sylweddol, bydd y Brifysgol yn gweithredu i atal myfyriwr rhag astudio.

4.2 Gallwch gael eich atal o'r Brifysgol a/neu eich rhaglen ar unrhyw adeg yn ystod y weithdrefn hon. Os yw'r risg yn gysylltiedig â chleifion, cleientiaid neu aelodau o'r cyhoedd yn unig, gall myfyriwr gael ei atal o leoliad neu o leoliadau clinigol yn unig.

4.3 Mae gan yr Is-Ganghellor yr hawl i'ch atal ar unwaith am gyfnod o hyd at 12 mis calendr. Mewn amgylchiadau eithriadol, gellir ymestyn y cyfnod hwn. Gall yr Is-Ganghellor ddirprwyo'r rôl hon i'r Cofrestrydd Academaidd

4.4 Diben eich atal yw eich amddiffyn chi, aelodau'r Brifysgol, y cyhoedd, neu eich cydweithwyr tra bo'r ymchwiliad yn mynd rhagddo neu nes bydd y Weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer wedi'i chwblhau. Bydd yr Is-Ganghellor neu eu henwebai yn ystyried y risg y mae'r myfyriwr yn ei achosi i gymuned y Brifysgol, darparwyr lleoliadau, cleifion a/neu'r cyhoedd. Bydd y rhesymau ysgrifenedig dros y penderfyniad yn cael eu cofnodi, a byddant ar gael i chi.

4.5 Os bernir fod risg ar unwaith, mae gan Bennaeth yr Ysgol y pŵer i'ch atal ar unwaith o leoliad neu leoliad clinigol, am hyd at **7 diwrnod calendr**, i

amddiffyn diogelwch cleifion, cleientiaid a'r cyhoedd. Rhaid i'r Is-Ganghellor neu enwebai adolygu unrhyw ataliad o fewn **7 diwrnod calendr**.

4.6 Cyn dechrau ataliad o raglen, leoliad neu leoliad clinigol, cewch wybod i ba raddau y bydd gennych hawl i ddefnyddio cyfleusterau'r Brifysgol yn ystod y cyfnod atal, os o gwbl, ar ôl ystyried natur yr amgylchiadau a/neu unrhyw drosedd honedig.

4.7 Gall gorchymyn atal gynnwys gofyniad na ddylech fod mewn cysylltiad o unrhyw fath ag unrhyw unigolyn neu unigolion a enwir.

4.8 Rhaid i'r Is-Ganghellor adolygu unrhyw ataliad o leiaf **bob 60 diwrnod calendr** a phan ddaw gwybodaeth newydd i'r amlwg, gyda'r nod o ddwyn yr achos i derfyn cyn gynted ag sy'n rhesymol yn ymarferol. Dylech gael eich hysbysu'n ysgrifenedig am ganlyniad unrhyw adolygiad o fewn **7 diwrnod calendr**.

4.9 Os cewch eich atal, gallwch wneud cais i adolygu penderfyniad yr Is-Ganghellor neu enwebai o fewn **14 diwrnod** i'r penderfyniad. Gallwch hefyd wneud cais i adolygu'r ataliad, os bydd newid yn yr amgylchiadau e.e. daw achos llys i ben, neu eich bod yn cael eich dyfarnu'n ddieuog o gyflawni trosedd neu bod yr heddlu'n dod ag achos i ben yn gynnar drwy roi rhybuddiad neu rybudd.

4.10 Caiff yr adolygiad ei ystyried gan y Dirprwy Is-Ganghellor, Rhag Is-Ganghellor, Deon Coleg neu Gofrestrydd Academaidd nad yw wedi ystyried yr achos yn flaenorol. Cewch gyfle i roi tystiolaeth i'r adolygydd, a fydd â'r pŵer i godi neu i gadarnhau'r penderfyniad i atal ar sail cyngor arbenigol priodol a'r risgiau dan sylw.

## 5. Ymchwiliad

5.1. Os bydd Pennaeth yr Ysgol yn penderfynu y dylid cynnal ymchwiliad, bydd Swyddog Ymchwilio'n cael ei benodi. Cewch eich hysbysu **o fewn 14 diwrnod** o benodiad y Swyddog Ymchwilio.

5.2. Cewch weld y dystiolaeth a gyflwynwyd gyda'r adroddiad ar achos y pryder.

5.3. Bydd y Swyddog Ymchwilio'n asesu'r ffeithiau sydd ar gael, ac yn penderfynu sut i fwrw ymlaen.

- Os yw'r pryder yn gysylltiedig â mater troseddol, efallai na fydd y Brifysgol yn ymchwilio nes bydd yr achos troseddol wedi'i gwblhau, a gall y Brifysgol ddefnyddio canlyniad yr heddlu a/neu y llys fel sail i'w hymchwiliad. Bydd pryderon yn gysylltiedig ag ymddygiad yr oedd yr heddlu wedi dewis peidio ymchwilio iddo neu'n dilyn rhyddfarn yn destun ymchwiliad gan y Brifysgol.

- Os yw'r pryder yn ymwneud â mater iechyd, fel arfer bydd yr achos yn cael ei atgyfeirio gan y Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol. Gellir ei atgyfeirio hefyd at ymarferydd meddygol allanol. Ym mhob atgyfeiriad,

efallai y gofynnir i'ch meddyg teulu neu'r meddyg sy'n eich trin am dystiolaeth feddygol. Os gwneir atgyfeiriad gan y Brifysgol, bydd cost yr atgyfeiriad/adroddiad yn cael ei thalu gan y Brifysgol a bydd yr adroddiad a gynhyrchir ar gael i chi o fewn **14 diwrnod** ar ôl i ni ei gael.

- Os yw'r pryder yn ymwneud ag ymddygiad ac iechyd gwneir atgyfeiriad at y Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol a bydd cyfarfod yn cael ei drefnu ar wahân â chi a phartïon eraill perthnasol fel rhan o'r broses ymchwilio. Bydd cynnwys yr adroddiad Iechyd Galwedigaethol yn cael ei ddatgelu i chi.

5.4. Os bydd yr ymchwiliad yn mynd yn ei flaen, bydd y Swyddog Ymchwilio'n cwrdd ar wahân â chi a phartïon eraill perthnasol. Bydd cyfarfodydd yn cael eu trefnu gan roi o leiaf **7 diwrnod o rybudd.**

5.5. Cyn mynd i'r cyfarfod, byddwch yn cael gwybod am y canlynol:

- diben y cyfarfod;
- y pryder dan sylw a'r dystiolaeth a gyflwynwyd;
- y Weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer;
- manylion am y staff fydd yn bresennol;
- yr hawl i fynd â ffrind neu gynrychiolydd i'r cyfarfod gyda chi;
- manylion cyswllt Cyngor i Fyfyrwyr Undeb y Myfyrwyr.

5.6. Os gofynnir i chi fod yn bresennol mewn cyfarfod gallwch wneud cais i ail-drefnu'r cyfarfod neu fynychu drwy ddolen fideo neu ffôn. Mae gennych yr hawl i herio'r dystiolaeth ac i gyflwyno tystiolaeth mewn ymateb i'r honiadau sy'n destun ymchwiliad ac i ategu eich sylwadau.

5.7. Byddwch yn cael cofnod o unrhyw gyfarfodydd **o fewn 14 diwrnod** ar ôl y cyfarfod. Gallwch gyflwyno datganiad os ydych chi'n credu bod y cofnod o'r cyfarfod yn anghywir. Efallai y bydd angen cynnal rhagor o gyfarfodydd os daw rhagor o wybodaeth i'r amlwg.

5.8. Bydd y Swyddog Ymchwilio'n cynhyrchu adroddiad o ffeithiau'r ymchwiliad, a fydd yn cynnwys yr holl wybodaeth a gasglwyd, ac yn gwneud argymhelliad i Bennaeth yr Ysgol i:

- wrthod y pryder neu'r mater dan sylw; **neu**
- Cyfeirio'r pryder/mater i gael ei ystyried gan Bwyllgor Addasrwydd i Ymarfer, **neu**
- Cyfeirio'r pryder/mater i gael ei ystyried gan Bwyllgor Prifysgol os yw'r pryder yn un difrifol iawn neu os oes ffactorau eraill a ddylai gael eu hystyried gan y Brifysgol.

**5.9** Byddwch yn cael eich hysbysu o benderfyniad y Pennaeth Ysgol o fewn **14 diwrnod.**

## 6. Ystyried y Pryder: Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer yr Ysgol

6.1. Diben y Pwyllgor Ysgol yw ffurfio panel annibynnol i ystyried y dystiolaeth a ganfuwyd gan y Swyddog Ymchwilio ac i roi cyfle i chi i ymateb i'r dystiolaeth honno, i gynnig safbwynt arall, ac i gyflwyno tystiolaeth ychwanegol neu ffactor lliniarol.

6.2. Bydd Pwyllgor Ysgol yn cael ei drefnu fel arfer o fewn **35 diwrnod** o benderfyniad Pennaeth yr Ysgol. Aelodau'r pwyllgor fydd:

- Uwch aelod o staff yr Ysgol (Cadeirydd);
- Aelod staff o Ysgol arall sydd hefyd â rhaglenni lle mae'r Weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer yn gymwys.
- Cynrychiolydd o'r corff proffesiynol perthnasol sy'n allanol i'r Brifysgol (lle mae hyn yn ofynnol yn ôl rheoliadau'r corff proffesiynol).

Bydd aelod o'r tîm Achosion Myfyrwyr yn bresennol i gynorthwyo'r pwyllgor ac i gynghori ar y weithdrefn.

6.3. Ni fydd gan ddim aelod o'r Pwyllgor wybodaeth flaenorol am y myfyriwr, y pryder am ymddygiad y myfyriwr, nac am yr unigolyn sydd wedi mynegi'r pryder. Bydd pob aelod o'r Pwyllgor wedi cael hyfforddiant i wneud penderfyniadau ar addasrwydd i ymarfer.

6.4. Bydd Pennaeth yr Ysgol yn enwebu aelod o staff i weithredu fel ysgrifennydd i'r Pwyllgor a fydd yn hysbysu pob parti o ddyddiad y cyfarfod. Byddwch yn cael o leiaf **14 diwrnod** o rybudd cyn y cyfarfod a bydd pob parti'n cael copi o bapurau'r Pwyllgor.

6.5. Byddwch yn cael eich cynghori ar eich hawl i gael cynrychiolaeth, i alw tystion, i gyflwyno tystiolaeth, ac i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig. Dylid cyflwyno unrhyw dystiolaeth/datganiadau pellach i'r Ysgrifennydd **7 diwrnod** cyn y cyfarfod o'r Pwyllgor. Bydd yr ysgrifennydd yn dosbarthu'r wybodaeth i aelodau'r pwyllgor.

6.6. Bydd papurau'r Pwyllgor yn cynnwys:

- Adroddiad y Swyddog Ymchwilio a'r dystiolaeth a gasglwyd;
- Adroddiad iechyd galwedigaethol, os yn berthnasol;
- Codau a rheoliadau'r corff proffesiynol perthnasol;
- y Weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer;
- Eich datganiad, os ydych wedi gwneud un.

6.7. Gallwch chi a'r Swyddog Ymchwilio alw tystion perthnasol i fynychu gwrandawiad y Pwyllgor. Gall cynrychiolydd Iechyd Galwedigaethol fod yn bresennol yn achos pryderon iechyd.

6.8. Os na fyddwch yn mynychu'r cyfarfod o'r Pwyllgor, gall y Pwyllgor fwrw ymlaen yn eich absenoldeb os yw aelodau'r Pwyllgor yn fodlon eich bod wedi cael rhybudd digonol ac os nad oes rheswm da wedi'i roi am eich absenoldeb.

## 7. Y Weithdrefn a ddilynir yn ystod y Pwyllgor Ysgol a Phrifysgol:

7.1. Gall y Cadeirydd ohirio'r cyfarfod, yn dilyn cais gennych chi neu gais gan unrhyw aelod o'r Pwyllgor, os oes rheswm da.

7.2. Bydd y Swyddog Ymchwilio'n cyflwyno'r pryder addasrwydd i ymarfer i'r Pwyllgor ac yn galw unrhyw dystion y bernir sy'n briodol i'r achos.

7.3. Gall aelodau'r Pwyllgor, a chi neu eich cynrychiolydd, ofyn cwestiynau i'r Swyddog Ymchwilio.

7.4. Byddwch yn cael cyfle i gyflwyno eich ymateb a'ch tystiolaeth i'r Pwyllgor ac i alw tystion, os yn gymwys.

7.5. Gall aelodau'r Pwyllgor a'r Swyddog Ymchwilio ofyn cwestiynau sy'n gysylltiedig â'r pryderon addasrwydd i ymarfer.

7.6. Bydd y Swyddog Ymchwilio'n crynhoi'r achos a gallwch chi roi datganiad terfynol cyn i chi a'r Swyddog Ymchwilio adael y Pwyllgor fel y bydd y Pwyllgor yn gallu gwneud ei benderfyniad.

**8. Penderfyniadau'r Pwyllgor Ysgol**

8.1. Bydd penderfyniad y Pwyllgor Ysgol yn cael ei wneud ar ôl pwyso a mesur y tebygolrwydd a bydd yn seiliedig ar ystyriaeth o'r holl dystiolaeth sydd ar gael i'r Pwyllgor, gan gynnwys unrhyw ffactorau lliniarol a gyflwynwyd, gan gynnwys camau unioni, hyfforddiant, neu driniaeth rydych wedi'i chael yn ddiweddar.

8.2. Gall y Pwyllgor Ysgol wneud **1 neu ragor** o'r penderfyniadau canlynol:

- gwrthod y pryder;
- cyhoeddi rhybudd anffurfiol;
- cyhoeddi rhybudd ffurfiol a fydd yn cael ei gadw ar eich ffeil am gyfnod penodedig ac a fydd yn cael gadw mewn cof mewn unrhyw achosion yn y dyfodol;
- mynnu eich bod yn mynychu sesiynau cymorth mewnol neu allanol;
- mynnu eich bod yn ysgrifennu adroddiad myfyriol gyda chymorth aelod o staff;
- mynnu eich bod yn datblygu ac yn cwblhau cynllun gweithredu gyda chymorth aelod o staff;
- mynnu eich bod yn cael eich monitro gan y Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol ac yn parhau ar y rhaglen gyda chymorth;

- mynnu eich bod yn gohirio eich astudiaethau am gyfnod penodedig;
- eich cyfeirio at y Pwyllgor Prifysgol.

8.3. Ni fydd y Pwyllgor Ysgol yn cael gwybod am unrhyw achosion addasrwydd i ymarfer neu gosbau ymddygiad blaenorol oni bai bod y penderfyniad yn mynd yn eich erbyn. Bydd gwybodaeth am unrhyw achosion addasrwydd i ymarfer neu gosbau ymddygiad blaenorol yn cael eu defnyddio i gynorthwyo'r Pwyllgor i benderfynu ar gosb briodol.

8.4. Bydd myfyrwyr yn cael eu hysbysu o benderfyniad y Pwyllgor Ysgol yn ysgrifenedig o fewn **7 diwrnod** o'r cyfarfod a chânt wybod sut i ofyn am adolygiad o'r penderfyniad o dan Weithdrefn Adolygu'r Brifysgol. Ni fydd cosb yn cael ei rhoi nes bydd y cyfnod adolygu wedi dod i ben neu wedi'i gwblhau, os ceir cais am adolygiad.

8.5. Bydd unrhyw gosbau a bennir gan y Pwyllgor Ysgol yn cael eu monitro a bydd cynnydd yn cael ei adrodd i Bennaeth yr Ysgol. Os na wneir y cynnydd disgwyliedig, bydd hyn yn cael ei adrodd i'r Cofrestrydd Academaidd a all gyfeirio'r mater yn ôl at Gadeirydd y Pwyllgor. Bydd y Cadeirydd yn penderfynu a ddylid cadarnhau neu newid y penderfyniad gwreiddiol, ynteu a ddylai'r achos gael ei gyfeirio'n ôl at Bwyllgor Prifysgol.

## 9. Y Pwyllgor Prifysgol

9.1. Bydd Pennaeth yr Ysgol neu Gadeirydd y Pwyllgor Ysgol yn cyfeirio'r achos at Bwyllgor Prifysgol os bernir fod y pryder yn un difrifol a/neu bod ffactorau eraill fel honiadau o ymddygiad mynych/sy'n cael ei ailadrodd. Bydd Pwyllgor Prifysgol yn cynnwys:

- Rhag Is-Ganghellor, Deon Coleg neu Bennaeth Ysgol (Cadeirydd);
- 2 aelod o staff academaidd o Ysgol sydd hefyd â gofynion addasrwydd i ymarfer;
- Swyddog etholedig llawn amser o Undeb y Myfyrwyr;
- Cynrychiolydd o'r corff proffesiynol perthnasol sy'n allanol i'r Brifysgol (lle mae hyn yn ofynnol yn ôl rheoliadau'r corff proffesiynol).

Bydd aelod o'r tîm Achosion Myfyrwyr yn bresennol i gynorthwyo'r pwyllgor ac i gynghori ar y weithdrefn.

9.2. Bydd y gwrandawiad yn cael ei drefnu'n ddiymdroi, ond gall hyn gymryd hyd at **9 wythnos** oherwydd ymrwymiadau proffesiynol eraill aelodau'r panel. Bydd papurau'r Pwyllgor yn cael eu hanfon atoch chi ac aelodau'r Pwyllgor **14 diwrnod** cyn dyddiad y cyfarfod.

9.3. Byddwch yn cael eich cynghori ar eich hawl i gynrychiolaeth, i alw tystion, i gyflwyno tystiolaeth ac i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig. Dylid cyflwyno unrhyw dystiolaeth/datganiadau pellach i'r Ysgrifennydd **7 diwrnod** cyn y

cyfarfod o’r Pwyllgor. Bydd yr ysgrifennydd yn dosbarthu’r wybodaeth ymhlith aelodau’r Pwyllgor.

9.4. Bydd y Pwyllgor Prifysgol yn cael ei gynnal yn unol ag adran 7 uchod.

## 10. Penderfyniadau’r Pwyllgor Prifysgol

10.1. Bydd penderfyniad y Pwyllgor Prifysgol yn cael ei wneud ar ôl pwyso a mesur tebygolrwydd ac ar ôl ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael i’r Pwyllgor, gan gynnwys unrhyw ffactorau lliniarol a gyflwynir, a chan gynnwys camau unioni, hyfforddiant, neu driniaeth a gawsoch yn ddiweddar.

10.2. Gall y Pwyllgor Prifysgol gymryd 1 neu fwy o’r penderfyniadau canlynol:

- Unrhyw benderfyniad a restrir ym mharagraff 8.2 ar gyfer y Pwyllgor Ysgol;
- Eich atal am gyfnod penodedig;
- Mynnu eich bod yn ailsefyll rhan(nau) o’ch rhaglen astudio, lle mae hyn yn bosibl yn ôl y rheoliadau;
- Mynnu eich bod yn ymgysylltu â mesurau cymorth penodedig am weddill eich rhaglen astudio;
- Unrhyw gam y tybia’r Pwyllgor sy’n briodol i roi cyfle i chi gwblhau’r rhaglen yn llwyddiannus;
- Eich tynnu o’ch rhaglen astudio a chaniatáu i chi drosglwyddo i raglen astudio sydd heb fod yn un broffesiynol (yn amodol ar ofynion derbyn y rhaglen astudio arall);
- Eich gwahardd o’r rhaglen ac o’r Brifysgol.

10.3 Ni fydd y Pwyllgor yn cael ei hysbysu am unrhyw achosion addasrwydd i ymarfer neu gosb ymddygiad arall oni bai bod yr achos yn mynd yn eich erbyn. Bydd gwybodaeth am unrhyw achosion addasrwydd i ymarfer neu gosbau ymddygiad blaenorol yn cael eu defnyddio i gynorthwyo’r Pwyllgor i benderfynu ar gosb briodol.

10.4 Bydd myfyrwyr yn cael eu hysbysu’n ysgrifenedig o benderfyniad y Pwyllgor o fewn **7 diwrnod** o’r cyfarfod ac yn cael gwybod sut i ofyn am adolygiad o’r penderfyniad o dan y Weithdrefn Adolygu. Ni chaiff cosb ei gweithredu nes bydd y cyfnod adolygu wedi dod i ben neu wedi’i gwblhau, os ceir cais am adolygiad. Noder, fodd bynnag, pan yn berthnasol, efallai na chaniateir i chi barhau â’ch rhaglen nes ceir canlyniad yr adolygiad.

10.5 Bydd y Cofrestrydd Academaidd a Phennaeth yr Ysgol yn penderfynu a fydd unrhyw benderfyniadau a gadarnhawyd gan y Pwyllgor Ysgol neu Brifysgol yn cael eu hadrodd i’r corff proffesiynol perthnasol yn unol â’i ofynion.

## 11. Monitro Penderfyniadau Pwyllgorau

11.1. Mae penderfyniadau pwyllgorau'n cael eu monitro er mwyn helpu myfyrwyr i gwblhau'r camau gofynnol.

11.2. Os na fyddwch yn cydymffurfio ag amodau Pwyllgor, bydd adroddiad diffyg cydymffurfiad yn cael ei anfon gan Bennaeth yr Ysgol at y Cofrestrydd Academaidd.

11.3. Cewch eich hysbysu o fewn **28 diwrnod** o anfon yr adroddiad diffyg cydymffurfiad at y Cofrestrydd Academaidd.

11.4. Byddwch yn cael cynnig **14 diwrnod** i ymateb i'r adroddiad diffyg cydymffurfiad ac i gyflwyno unrhyw dystiolaeth i'w hystyried gan y Cofrestrydd Academaidd.

11.5. Bydd y Cofrestrydd Academaidd yn cael cyngor gan Gadeirydd y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer a fydd yn ystyried yr adroddiad, eich ymateb, a'r cofnod o benderfyniad gwreiddiol y pwyllgor a gall naill ai wneud penderfyniad arall, cadarnhau'r penderfyniad gwreiddiol, neu osod cosb arall.

11.6. Bydd penderfyniad y Cadeirydd yn derfynol.

## 12. Gwneud Cais am Adolygiad

12.1. Os yw Pwyllgor wedi penderfynu bod ymddygiad addasrwydd i ymarfer wedi'i dorri, gallwch ofyn am adolygu'r penderfyniad yn unol â Gweithdrefn Adolygu'r Brifysgol. Mae terfynau amser ynghlwm wrth y weithdrefn hon.